

Safonau'r Gymraeg

Adroddiad Monitro Blynyddol

Taf o Ebrill 2020 – 31ain o Fawrth 2021



**Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru**

South Wales
Fire and Rescue Service

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Uchafbwyntiau 2020 - 2021	3
Cefndir Safonau'r Gymraeg	4
Safonau a gymhwyswyd i Awdurdod Tân ac Achub De Cymru	4
Tudalen Gwefan Safonau'r Gymraeg	5
Gweithredu Safonau'r Gymraeg a Monitro Cydymffurfedd	6
Systemau Monitro ac Adrodd	7
Gwasanaethau Cyfieithu i'r Gymraeg	7
Polisiâu a Gweithdrefnau Corfforaethol	8
Swyddi a sgiliau'r iaith Gymraeg	8
System E-recriwtio newydd	8
Academi Cymru – 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog'	9
Darparu Hyfforddiant Cymraeg	9
Hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant Cymru	10
Diwrnod Hawliau'r Gymraeg - y 7fed o fis Rhagfyr	11
Nifer yr ymweliadau â thudalennau'r wefan Gymraeg	12
Dadansoddiad o ryngweithiadau â thudalennau cyfryngau cymdeithasol	13
Nifer y staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg	16
Gwobr Iaith Gymraeg I Ddiffoddwyr Tân	16
Hyfforddiant a chysiau drwy gyfrwng y Gymraeg	17
Galwadau ffôn a Gohebiaeth a Dderbyniwyd yn Gymraeg	17
Cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg	17

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cyflwyniad

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n falch o gyhoeddi ei Adroddiad Monitro Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg 2020 - 2021. Parhaodd y Gwasanaeth i fonitro ei wasanaethau yn erbyn y Safonau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er gwaethaf y newidiadau a ddaeth yn sgil Pandemig Bydeang COVID-19. Yn ystod y cyfnod hwn cafodd y nifer o bobl a gafodd mynediad i'n heiddo Gwasanaeth Tân ac Achub gennym gan weithredu system weithio gartref ar gyfer ein gweithwyr swyddfa. Defnyddiwyd cyswllt Fideo yn helaeth ar draws y Gwasanaeth yn lle cyfarfodydd a chyfweiliadau wyneb yn wyneb.

Am gyfnod effeithiwyd ar ein hymgysylltiadau Cymunedol yn sylweddol ac roedd rhaid i ni ail-feddwl am y ffyrdd newydd o weithio. Defnyddiwyd cyswllt Fideo yn helaeth ar draws y Gwasanaeth yn lle cyfarfodydd a chyfweiliadau wyneb yn wyneb.

Ym mis Hydref 2020 cymerodd y Gwasanaeth ran yn yr astudiaeth thematig gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg am effaith Covid-19 ar ddarpariaeth yr iaith Gymraeg. Drwy gydol y pandemig parhaodd ein hymroddiad i Hawliau'r Gymraeg defnyddwyr ein Gwasanaeth gan gynnig gwasanaethau dwyieithog o safon uchel drwy gyfrwng y Gymraeg o hyd.

Uchafbwyntiau 2020 – 2021

- System E-creiwtio CoreHR newydd a lansiwyd yn Ionawr 2021
- Blwyddyn prysur iawn i'r Tîm Cyfieithu, a ymgwymerodd ag ystod o waith amrywiol yn ystod y pandemig
- Mynychodd dau o arweinwyr y Gwasanaeth raglen Academi Cymru – 'Arwain mewn Gwlad Ddwyieithog'
- Cymerodd y Gwasanaeth ran yn niwrnod Hawliau'r Iaith Gymraeg a gynhaliwyd am yr ail dro, yn hyrwyddo hawliau ar gyfer defnyddwyr a gweithwyr y Gwasanaeth
- Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, hyrwyddwyd tri dyddiad allweddol yn fewnol i staff
- Cynnydd sylweddol yn y nifer o staff sy'n defnyddio eu cyfrifon CoreHR I gofrestru eu Sgiliau Iaith Gymraeg

Cefndir Safonau'r Gymraeg

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ofynnol i bob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau iaith, sy'n sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r dyletswyddau'n annog hyrwyddo'r Gymraeg, defnyddio'r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol yn ogystal â gwneud darparu ar gyfer hygyrchedd y Gymraeg i'r cyhoedd yn ofynnol.

Mae Adran 44 o Fesur 2011 yn caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg gyflwyno hysbysiad Cydymffurfio, yn ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un neu ragor o safonau sy'n benodol gymwys iddo. Yn dilyn hyn cyflwynwyd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016, i'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru. Yn unol ag Adran 44 o Fesur 2011, diben Safonau'r Gymraeg yw darparu:

- Eglurdeb o ran y Gymraeg i sefydliadau
- Eglurdeb i siaradwyr Cymraeg o ran pa wasanaethau y gellir disgwyl eu derbyn drwy gyfrwng y Gymraeg
- Gwell cysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg ac ansawdd gwell i ddefnyddwyr

Safonau a gymhwysir at Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

Mae cyfanswm o 150 o Safonau'r Gymraeg bellach ar waith o fewn y categorïau canlynol:

- **Darparu gwasanaethau** 66 o safonau
- **Llunio polisiau** 9 safon
- **Gweithredol** 47 o safonau
- **Cadw cofnodion*** 8 safon
- **Atodol*** 20 o Safonau ar draws 4 categori

Cymhwysir y Safonau ar gyfer cadw cofnodion* a'r Safonau atodol* i helpu sefydliadau â'r broses o hunan-reoleiddio eu cydymffurfedd.

Tudalen Wefan Safonau'r Gymraeg

Mae gan y Gwasanaeth dudalen benodol ar gyfer safonau'r Gymraeg dan 'Pwy ydym ni' ar ddewislen gwefan y Gwasanaeth. Mae'r dudalen yn cynnwys gwybodaeth am gyflwyno Safonau'r Gymraeg ynghyd â dolenni i Hysbysiad Cydymffurfio, Cynllun Gweithredu ac Adroddiad Monitro.


Blynyddol yr Awdurdod. Darperir manylion i ddefnyddiwr y wefan yn esbonio sut i gofrestru cynw neu ganmoliaeth mewn perthynas â chydymffurfio â'r Safonau a rhoddir manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau ynghylch ein Gwasanaeth a'r Gymraeg.

Dolen i dudalen Safonau'r Gymraeg:

www.decymru-tan.gov.uk/pwy-ydym-ni/safonau-gymraeg

Gweithdrefn ar gyfer cwynion a chanmolaeth mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg:

<https://www.decymru-tan.gov.uk/cysylltu-a-ni>



Gweithredu Safonau'r Gymraeg a Monitro Cydymffurfedd

Cyfrifoldeb y Tîm Arwain Gweithredol a'r Penaethiaid Gwasanaethau yw cydymffurfedd yr Awdurdod â Safonau'r Gymraeg. Mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn gyfrifol am gydymffurfio â'r Safonau sy'n berthnasol i'w hadrannau hwy ac mae'n ofynnol iddynt gynnal adolygiad cydymffurfio unwaith y flwyddyn. Fel corff cyhoeddus, mae'n ofynnol i'r Gwasanaeth hunan-reoleiddio ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg. Mae hyn yn golygu monitro ein cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg a sicrhau ein bod yn rhoi digon o gyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio gyda ni neu wrth ddefnyddio ein gwasanaethau.

Safonau a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg i gynorthwyo â hunan-reoleiddio yw'r Safonau ar gyfer cadw cofnodion a'r Safonau atodol. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gofnodi'n gyfnodol sut rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a sut rydym yn delio â'r cyhoedd. Mae cofnodi'r manylion hyn yn ein galluogi i ddangos sut rydym yn cynnal cydymffurfedd. Mae monitro cydymffurfedd â'r safonau hefyd yn golygu cyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol ar y wefan allanol erbyn y 30ain o Fedi bob blwyddyn.

Mae cynnwys yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Y modd y mae'r Gwasanaeth wedi cydymffurfio â gwahanol ddsbarthiadau o Safonau
- Y nifer o weithwyr â Sgiliau Iaith Gymraeg - Safon 147
- Y Nifer (a chanran os yw'n berthnasol) o aelodau staff a fynychodd hyfforddiant penodol y mae'n rhaid ei ddarparu yn Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (sef hyfforddiant ar recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, cwynion a gweithdrefnau disgyblu, anwytho, delio â'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch) - Safon 148
- Y nifer o swyddi newydd a gwag sy'n cael eu categoreiddio fel rhai gyda Sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, ddim yn angenrheidiol, neu angen eu dysgu - Safon 151
- Y nifer o gwynion a dderbyniwyd gan y sefydliad am bob dosbarth o Safonau - Safon 143

Systemau Monitro ac Adrodd

Gwelwyd cynnydd pellach yn ystod 2020 - 2021 yn system newydd y Gwasanaeth ar gyfer monitro ac adrodd ar gydymffurfiaid â'r Safonau. Cofnodwyd yr holl safonau yn y system yn ddwyieithog a sefydlwyd tudalennau dangosfwrdd i ddangos perfformiad a chyfeiriad yr holl Safonau. Bydd angen gwaith ychwanegol i gadarnhau'r 'perchnogion' ar gyfer y Safonau.

Gwasanaethau Cyfieithu Cymraeg

Mae gan y Gwasanaeth Dîm Cyfieithu Mewnol ei hun gyda dau aelod staff parhaol. Mae'r Tîm yn gweithredu fel rhan o'r Adran Cyfryngau a Chyfathrebu ehangach gan chwarae rhan allweddol mewn sicrhau bod y Gwasanaeth yn parhau i ddarparu'r cynnwys dwyieithog o'r safon uchaf i'r holl randdeiliaid. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er gwaethaf yr heriau proffesiynol a phersonol ychwanegol pandemig Covid-19, mae'r tîm wedi gwneud cyfraniad rhagorol i'r Gwasanaeth, gan gyfieithu ystod o ddeunyddiau'n brydlon, gan gynnwys dogfennau technegol cymhleth, cynlluniau busnes, adroddiadau, fideo a negeseuon cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r Tîm Cyfieithu hefyd yn cefnogi ymgyrchoedd mawr Cymru gyfan megis 'Peidiwch â Rhoi Tanwydd ar y Tân' yn dargedu tanau sbwriel bwriadol gyda'r bwriad o leihau digwyddiadau ac addysgu'r cyhoedd am waredu eitemau gwastraff yn ddiogel. Rhyddhawyd y pecyn cymorth yn 2020 gan gynnwys datganiadau i'r wasg, delweddau, fideo a negeseuon cyfryngau cymdeithasol. Darparwyd pecyn dwyieithog proffesiynol, gan ein galluogi i rannu'r pecyn cymorth gydag ystod o bartneriaid i'w ddefnyddio ar eu sianeli eu hunain, a thrwy hynny ledaenu ein neges.

Mae ein Cyfieithwyr yn parhau i ddarparu cefnogaeth anffurfiol i aelodau staff unigol sy'n nodi eu bod yn ddysgwyr Cymraeg ac yn dymuno ymarfer eu sgiliau yn y gweithle. Mae'r gefnogaeth hon wedi bod yn amhrisiadwy gan feithrin hyder staff.

Cyfanswm y geiriau o'r 1af o Ebrill 2020 - i'r 31ain o Fawrth 2021

- Cyfieithwyd: 286,312
- Prawf-ddarllenwyd: 86,896

Polisiâu a Gweithdrefnau Corfforaethol

Mae'r Gwasanaeth yn cydymffurfio â'r gofyniad cyfreithiol i gynnal Asesiadau Risg Cydraddoldeb (a fydd yn newid i Asesiad Integredig ym mis Hydref 2021) ac mae'n cynnwys laith fel maes i'w asesu. Cwblheir asesiadau ar gyfer yr holl bolisiâu a gweithdrefnau gan gynnwys dogfennau hyn sy'n cael eu diwygio. Mae ein polisiâu Corfforaethol sy'n cadarnhau'r holl weithgareddau darparu a chefnogi gwasanaethau wedi cael eu llunio ar gyfer y cyhoedd. Cyhoeddir y polisiâu ar wefan y Gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ac maent ar gael yma: www.decymru-tan.gov.uk/pwy-ydyn-ni/polisi-corrforaethol

Swyddi a Sgiliau Iaith Cymraeg

Mae'r Gwasanaeth yn hysbysebu swyddi gwag trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ac mae'r rhain yn ymddangos ar y dudalen 'Swyddi Gwag Diweddaraf' ei wefan. Mae pob swydd o fewn y Gwasanaeth yn cael eu categorio yn swyddi Cymraeg Hanfodol neu Gymraeg Dymunol. Ar gyfer y swyddi hynny sydd o fewn y categori Hanfodol, aserir ymgeiswyr ar eu sgiliau Cymraeg fel rhan o'r proses Llunio Rhestr Fer a Dethol.

Swyddi Newydd a Swyddi Gwag Iaf o Ebrill 2020 - i'r 31ain o Fawrth 2021

- Cymraeg Hanfodol: 3
- Cymraeg Dymunol: 28

System E-recriwtio Newydd

Yn ystod Ionawr 2021 lansiodd y Tîm Recriwtio ac Adnoddau System E-recriwtio newydd a ffurflen gais Ar-lein. Treialwyd y system yn helaeth gyda dwy Ymgyrch Recriwtio; Diffoddwr Tân y System Ddyletswydd Amser Gyflawn a'r Diffoddwr Tân Rheoli. Mae'r system newydd yn rhoi'r opsiwn i'r defnyddiwr lywio ei dudalennau a chyflwyno cais trwy gyfrwng Cymraeg

Mae'r ffurflen ar-lein yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwybodaeth am lefel eu Cymraeg e.e. siaradwr neu ddysgwyr Cymraeg a lefel gyffredinol y Gymraeg sy gyda nhw. Mae'r ffurflen hefyd yn darparu opsiwn iddynt dderbyn gohebiaeth bellach trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r system newydd eisoes wedi gwella profiad defnyddwyr o ran ymgeisio am swyddi. Gwneir gwaith pellach ar y system Ar-lein i sefydlu proses ddibynadwy ar gyfer tynnu data o ffurflenni cais gorffenedig.

Academi Cymru – Arwain mewn Gwlad Ddwyeithog

Ym Mawrth 2021 dechreuodd dau o'n Harweinwyr Gwasanaeth raglen o weithdai gydag Academi Cymru ar 'Arwain mewn Gwlad Ddwyeithog'. Ysbrydolwyd y rhaglen gan Strategaeth Llywodraeth Cymru "Cymraeg 2050 – Miliwn o siaradwyr Cymraeg" gyda thri phrif amcan:

1. I gynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg
2. I gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
3. I greu amodau ffafriol – isadeiledd a chynnwys

Prif nod y rhaglen yw galluogi arweinwyr i weithio tuag at newid diwylliannol o fewn eu sefydliadau, gan greu amgylchedd a fydd yn annog siaradwyr Cymraeg gyda phob lefel o sgiliau i ddefnyddio eu Cymraeg. Mae'r gweithdai yn hwyluso trafodaethau am ddwyieithrwydd, gan ystyried y tri gwerth sef 'cynhwysiad, balchder ac ysbrydoli' gyda'r pwyslais ar y 'Siaradwr Cymraeg' yn hytrach na 'rhuglder'.

Darparu Hyfforddiant Iaith Gymraeg

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod manteision Dysgu Iaith Gymraeg ac yn ceisio creu amgylchedd gwaith lle bydd dwyieithrwydd yn parhau i gynyddu. Rhoddir cyfle i'n gweithwyr gyflwyno ceisiadau am Hyfforddiant Iaith Gymraeg trwy ein Cronfa Ddysgu Ychwanegol. Gall unigolion gyrchu'r gronfa unrhyw adeg o'r flwyddyn, ar gyfer cyfleoedd dysgu a datblygu ychwanegol ac roedd hon ar gael trwy gydol Pandemig COVID-19.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2020 - 2021, cofrestrodd dau aelod o staff ar gyrsiau Iaith Gymraeg, gyda chefnogaeth y gronfa ddysgu Gwasanaethau Ychwanegol. Dysgodd un o'r gweithiwr gyda Dysgu Cymraeg Gwent a'r llall gyda Dysgu Cymraeg Morgannwg. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod manteision dwyieithrwydd gan greu ar hyn o bryd hysbyseb newydd ar gyfer ei safle mewnwyd staff i hyrwyddo cyfleoedd dysgu a datblygu i'r holl weithwyr.

Hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant Cymru

Mae'r Gwasanaeth wedi hyrwyddo diwylliant Cymru'n fewnol gan ddefnyddio'r fewnrwyd, e-byst cyffredinol, posterï, arwyddion ac adnoddau geirfa Gymraeg. Cynhwysodd hyn hyrwyddo dyddiadau arbennig yng nghalendr Cymru:

- Y 15fed o Hydref 2020 - Diwrnod Shwmae
- Yr 25ain o Ionawr 2021 - Diwrnod Santes Dwynwen
- Y 1af o Fawrth 2021 - Dydd Gŵyl Dewi



Diwrnod Hawliau'r Gymraeg

7fed o Ragfyr 2020

Ar y 7fed o Ragfyr 2020, ymunodd y Gwasanaeth ag ymgyrch Cenedlaethol Diwrnod Hawliau'r Gymraeg i hyrwyddo'r Gwasanaethau Cymraeg a ddarparwyd gan Sefydliadau Cyhoeddus yng Nghymru. Pennwyd y dyddiad gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg i nodi'r diwrnod yn 2010 pan basiwyd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2010.

Mae Diwrnod Hawliau'r Gymraeg yn rhoi'r cyfle i hysbysu pobl o'u hawliau i dderbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyhoeddodd y Gwasanaeth restr o Hawliau'r Gwasanaeth sy'n cael eu harddangos yn barhaol yn Derbynfafa ein Pencadlys. Ar gyfer y 7fed o Ragfyr 2020 recordiwyd fideo o aelod o staff yn siarad am eu profiad gyda'r Gymraeg, a'i hyrwyddo'n fewnol trwy ein Mewnrwyd staff.

Gall defnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr gyrchu'r dudalen Hawliau Iaith Gymraeg ar ein gwefan gan ddefnyddio'r ddolen isod:

<https://www.decymru-tan.gov.uk/pwy-ydym-ni/safonaur-gymraeg/hawliaur-gymraeg/>

Gyda ni mae hawl gyda chi i gael y canlynol:

1. Dogfennau yn Gymraeg
2. Gwefannau yn Gymraeg
3. Gwneud cais am swydd yn Gymraeg
4. Llythyrau ac e-bost yn Gymraeg
5. Ffurflenni yn Gymraeg
6. Negeseuon cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg
7. Arwyddion yn Gymraeg
8. Defnyddio'r Gymraeg mewn Dderbynfafa
9. Defnyddio'r Gymraeg ar y ffôn

Nifer yr ymweliadau â'r wefan Gymraeg

Mae gwefan allanol y Gwasanaeth yn gwbl ddwyieithog ac mae'n rhoi cyfle i bob ymwelydd fod yn weithredol wrth gyrchu ei chynnwys drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Cofnodir perfformiad y fersiwn Gymraeg o'r safle yn ystod Ebrill 2020 - Mawrth 2021 o'i gymharu â'r fersiwn Saesneg yn y tabl isod:

Meini prawf	Y Wefan Gymraeg	Y Wefan Saesneg
YMWELIADAU UNIGRYW	7,185 (10,931)	562,226 (723,484)
DEFNYDDWYR	4,900 (3,802)	217,972 (167,734)
AMSER CYFARTALOG A DREULIWDYD AT Y WEFAN (FESUL SESIWN)	1 munud 12 eiliad	1 munud 59 eiliad
	(1 munud 41 eiliad)	(2 munud 3 eiliad)
TUDALENNAU MWYAF POBLOGAIDD	Swyddi gwag diweddaraf Ymladdwr Tân ar Alwad Rôl Diffoddwr Tân (Swyddi gwag diweddaraf) (Swyddi Diffoddwyr Tân) (Gweithio gyda ni)	Latest vacancies Wholetime Firefighter WDS2021 (Latest Vacancies) (On-Call Firefighter) (WDS2020)

Mae'r ffigyrau mewn cromfachau'n dangos y data cymharol ar gyfer 2019/2020

Dadansoddiad o ryngweithiadau â thudalennau cyfryngau cymdeithasol

Mae'r Gwasanaeth wedi cymryd camau i sicrhau bod ei holl ymgyrchoedd hyrwyddo a diogelwch drwy ei sianeli cyfryngau cymdeithasol yr un mor hygyrch i siaradwyr Cymraeg a siaradwyr Saesneg ill dau. Cyflawnwyd hyn drwy greu sianeli ar wahân ar gyfer y ddwy iaith, gyda chyfrif Trydar pwrpasol Cymraeg @TanDeCymru yn ogystal â thudalen Facebook bwrpasol Gymraeg. Gweler isod ddata perfformiad ar gyfer pob sianel Ebrill 2020 – Mawrth 2021:



Meini Prawf

DILYNWYR
(EBRILL 2020 - MAWRTH 2021)

NEGESEUON TRYDAR

ARWYDDION HOFFI

@TanDeCymru

177 (147)

1,600 (2,000)

202 (361)

@SWFireandRescue

34,000 (30,000)

2,100 (2,500)

30,000 (26,000)

Mae'r ffigyrau mewn cromfachau'n dangos y data cymharol ar gyfer 2019/2020

Meini Prawf

DILYNWYR

(EBRILL 2020 - MARWTH 2021)

Tudalen Gymraeg

263 i 380
(234 i 262)

¹ Tudalen Saesneg

28,305 i 35,962
(23,567 i 28,305)

ARWYDDION HOFFI NEWYDD

(EBRILL 2020 - MEHEFIN 2020)

79 (10)

3,117 (756)

ARWYDDION HOFFI NEWYDD

(GORFFENNAF 2020 - MEDI 2020)

4 (6)

1,698 (590)

ARWYDDION HOFFI NEWYDD

(HYDREF 2020 - RHAGFYR 2020)

8 (3)

541 (152)

ARWYDDION HOFFI NEWYDD

(IONAWR 2021 - MAWRTH 2021)

10 (8)

1,609 (2,010)

Mae'r ffigyrau mewn cromfachau'n dangos y data cymharol ar gyfer 2019/2020



Meini Prawf

DILYNWYR

HOFFI NEGESEUON

NEGESEUON

Tudalen ddwyieithog (o'r 31ain o Fawrth 2021)

7,200

48,000

286

Nifer y staff sydd â sgiliau Iaith Gymraeg

Mae gan Borthol AD y Gwasanaeth y gallu i gofnodi Sgiliau Iaith. Gofynnir i bob gweithiwr asesu lefel eu sgiliau ddarllen, siarad, deall ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg o 0 i 5 yn ogystal â nodi ai Cymraeg neu Saesneg yw eu dewis iaith. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio tuag at gynyddu'r nifer o Hunan-Asesiadau a gwblheir gyda chyhoeddiadau ar safwe'r Fewnwyd, e-byst cyffredinol a dogfennau canllaw.

Sgil	Lefel 0	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Lefel 5	Crynodeb
Darllen	237	39	13	13	8	12	322
Siarad	232	48	16	10	8	9	323
Deall	233	39	14	6	7	12	311
Ysgrifennu	243	30	15	12	5	7	312
Cyfanswm	945	156	58	41	28	40	1,268

Data a gasglwyd 31/02/2021

Gwobr Iaith Gymraeg i Ddiffoddwyr Tân

Yn ystod 2020, dechreuodd y Gwasanaeth gofrestru Diffoddwyr Tân Amser-llawn newydd ar gyfer cymhwyster Prentisiaeth gyda Choleg Caerdydd a'r Fro. Mae rhan o'r cymhwyster yn cynnwys Cwrs Cyffredinol Prentis-iaith gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Cwrs chwe modiwl yw Prentis-iaith sy'n ymdrin ag iaith a Diwylliant Cymraeg.

Mae'r cwrs yn un rhyngweithiol ac yn cynnwys system awtomataidd lle gall ymgeiswyr marcio gwaith eu hunain. Mae hon yn caniatáu i ddysgwyr weithio'n unigol ar gyflymder y maent yn gyfforddus ag ef. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau i ennyn diddordeb y dysgwr a'u tywys trwy'r modiwlau, gan gynnwys elfen lafar i helpu'r dysgwr i ymarfer ynganu ymadroddion Cymraeg. Dyfernir tystysgrif i'r holl ddysgwyr ar ôl iddynt gwblhau'r cwrs.

Hyfforddiant a chyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae dau brif bwynt cyswllt ar gyfer hyfforddi staff, sef y Tîm Dysgu a Datblygu ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân a Chanolfan Hyfforddi a Datblygu Porth Caerdydd. Ni chynhaliwyd unrhyw gyrsiau hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn hon ac ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar eu cyfer yn ystod 2020 - 2021.

Galwadau ffôn a Gohebiaethau a Dderbyniwyd yn Gymraeg

Derbyniwyd cyfanswm o 40 galwad ffôn Cymraeg gan ein prif switsfwrdd yn y Pencadlys yn y cyfnod Ebrill 2020 – Mawrth 2021. Mae trefniadau ychwanegol wedi'u gwneud gan yr adran Cefnogi Busnes i gofnodi galwadau mewn ffordd a fydd yn hwyluso adrodd manylach dros y flwyddyn. Derbyniwyd un e-bost Cymraeg gan yr adran Cefnogi Busnes. Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth Gymraeg arall.

Ebrill - Mehefin 2020 = 1

Gorffennaf - Medi 2020 = 22

Hydref - Rhagfyr 2020 = 14

Ionawr - Mawrth 2021 = 3

Ni dderbyniwyd unrhyw Ohebiaeth Gymraeg gan yr Adran Cymorth Busnes yn ystod y cyfnod Ebrill 2020 - Mawrth 2021.

Cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg

Mae'r adran Cymorth Busnes yn cofnodi'r holl gwynion a dderbynnir gan y Gwasanaeth drwy'r dudalen 'Cysylltwch â Ni' a'r adran honno sy'n ymdrin â'r cwynion hynny i gychwyn. Yn dilyn hynny cyfeirir unrhyw gwynion at yr adran berthnasol. Ni chafodd yr Awdurdod unrhyw gwyn mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg 2020 - 2021.



**Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru**

South Wales
Fire and Rescue Service

Bencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru,
Parc Busnes Forest View, Rhondda Cynon Taf, CF72 8LX.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n croesawu adborth am y wybodaeth a geir yn yr adroddiad hwn a'r ffordd y mae'n cael ei chyflwyno.
Cysylltwch â ni drwy ffonio: 01443 232000 neu drwy law e-bost: Cymraeg@decymru-tan.gov.uk